Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 23.04.2021

## Llacio cyfyngiadau COVID-19 – diweddariad amserlen

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd rhagor o'r cyfyngiadau yn cael eu llacio yn gynt, sef ar 3 Mai 2021 yn hytrach nag 17 Mai 2021, gan symud Cymru i Lefel Rhybudd 3 yn llwyr erbyn dydd Llun 3 Mai 2021.

Dyddiadau allweddol i fusnes:

Dydd Sadwrn 24 Ebrill 2021:

- Bydd hyd at chwech o bobl o chwe aelwyd yn cael cwrdd yn yr awyr agored, heb gynnwys plant o dan 11 mlwydd oed neu ofalwyr o'r aelwydydd hynny

Dydd Llun 26 Ebrill 2021:

- Bydd atyniadau awyr agored, gan gynnwys ffeiriau a pharciau thema, yn cael ailagor
- Bydd lletygarwch awyr agored yn cael ailddechrau, gan gynnwys mewn caffis, tafarndai a bwytai. (Bydd lletygarwch o dan do yn parhau i fod ar gau, heblaw ar gyfer bwyd i'w gludo oddi yno)
- Gellir cynnal gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu ar gyfer hyd at 30 o bobl
- Gellir cynnal derbyniadau priodasau yn yr awyr agored, ond byddant hefyd wedi'u cyfyngu i 30 o bobl

Dydd Llun 3 Mai 2021:

- Caiff campfeydd, canolfannau hamdden a chyfleusterau ffitrwydd ailagor. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant unigol neu un-i-un ond nid dosbarthiadau ymarfer corff
- Bydd modd ffurfio aelwydydd estynedig unwaith eto, a fydd yn galluogi dwy aelwyd i gwrdd a chael cyswllt o dan do. (Nid oes canllawiau ar sut fydd hyn yn effeithio llety hunan-gynhwysol)

Bydd camau llacio a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer 17 Mai 2021 yn cael eu gweithredu yn gynt, sef ar 3 Mai 2021, gan gynnwys:

- Ailddechrau gweithgareddau o dan do ac o dan oruchwyliaeth ar gyfer plant
- Gweithgareddau o dan do wedi'u trefnu ar gyfer hyd at 15 o oedolion (megis dosbarthiadau ymarfer corff a gwersi nofio)
- Ailagor canolfannau cymunedol

Wrth i letygarwch awyr agored ailagor yng Nghymru ar 26 Ebrill 2021, gellir cael canllawiau lliniaru lletygarwch awyr agored yn nogfen UK Hospitality Cymru: COVID-19 Secure advice and risk assessments for hospitality businesses. Ewch i:

https://www.ukhospitality.org.uk/page/WalesGuidance

Ar gyfer ailagor lletygarwch awyr agored ar 26 Ebrill 2021, mae Cyngor Gwynedd wedi rhyddhau datganiad yn atgoffa trigolion a busnesau o'r pethau sydd angen eu cofio er mwyn cadw yn ddiogel wrth ymweld â chaffis tu allan neu gerddi cwrw. I weld y datganiad, ewch i:

http://bit.ly/DatganiadGwynedd23Ebr2021

I gael y cyngor, y canllawiau a'r deunyddiau diweddaraf i gadw eich staff a'ch cwsmeriaid yn ddiogel, ewch i:

https://llyw.cymru/aros-yn-ddiogel-yn-y-gwaith
https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy

# Galwad Agored – Arloesi Gwynedd Wledig yn chwilio am ddwy dafarn yng Ngwynedd

Mae gan Arloesi Gwynedd Wledig ddau beiriant Store Tally ar gael i'w defnyddio i reoli pwyntiau mynediad, ac yn edrych am ddwy dafarn yng Ngwynedd i gymryd mantais o'r Galwad Agored yma. Cysylltwch â Rhian Hughes cyn gynted â phosib ar rhian@mentermon.com. Mae'r manylion ar gael ym Mwletin Bach AGW, ewch i:

https://bit.ly/3xm4o12

# CCIF: Gweminarau am ddim i helpu cynhyrchwyr bwydydd a diodydd i fynd yn ddigidol (Mai-Mehefin 2021)

Gweminar dwy ran am ddim sydd wedi'i deilwra ar gyfer cynhyrchwyr bwydydd a diodydd o Gymru a ddarperir gan Cyflymu Cymru i Fusnesau. Wrth i'r cyfnod clo leddfu, dysgwch sut y gall offer digidol eich helpu i baratoi. Bydd CCIF yn dangos i chi sut i ddefnyddio marchnata digidol i gyrraedd cwsmeriaid a chael arian yn y banc, yn ogystal ag offer ar-lein i'ch helpu chi i reoli'ch busnes, eich stoc a'ch cwsmeriaid yn well – megis CRM a systemau archebu, cyfrifyddu a rhagor. Dysgwch ragor a chofrestrwch eich busnes nawr, ewch i:

https://bit.ly/3xcK7Lz

Am wybodaeth am yr holl gyrsiau mae CCIF yn eu cynnig, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau

# Gweminarau am ddim FSB

- How to build an authentic brand that people want to follow: Dydd Mawrth 27 Ebrill 2021, 1.00pm – 2.00pm
- The end of LIBOR: What you need to know: Dydd Gwener 30 Ebrill 2021, 12:00pm – 1:00pm
- Scaling up your business model for the future: Dydd Mawrth 4 Mai 2021, 10.30am – 12:00pm
- Find customers with Google Maps with FSB and Google Digital Garage: Dydd Iau 6 Mai 2021, 11:00am – 12:00pm

Am fwy o wybodaeth am holl ddigwyddiadau am ddim FSB, ac i gofrestru, ewch i:

http://bit.ly/3r6ZEbn

Cyfrif Twitter FSB Cymru:

https://twitter.com/FSB_Wales

# Ymgynghoriad prosiect Teithio Llesol Gwynedd

Helpwch i wella llwybrau cerdded a beicio yn eich ardal leol yng Ngwynedd.

Mae Cyngor Gwynedd wedi rhyddhau datganiad yn atgoffa trigolion eu bod eisiau clywed barn a syniadau'r cyhoedd ar gyfer sut gellir gwella darpariaeth cerdded a beicio wrth iddynt lunio cynlluniau i wella trefi a phentrefi yng Ngwynedd, a'u gwneud yn lleoedd mwy braf i fyw, gweithio ac i ymweld. Mae prosiect Teithio Llesol Gwynedd yn canolbwyntio ar 12 o drefi yng Ngwynedd – Bangor, Y Felinheli, Bethesda, Caernarfon, Pwllheli, Porthmadog, Tremadog, Blaenau Ffestiniog, Bala, Dolgellau, Abermaw a Thywyn. Dewiswyd y lleoliadau hyn am eu bod yn agos at fwynderau y mae pobl yn teithio pellter byr i'w cyrraedd yn rheolaidd megis ysgolion, mannau siopa lleol a chyfnewidfeydd cludiant. I weld y datganiad yn llawn, ewch i:

http://bit.ly/DatganiadGwynedd20Ebr2021

I gymryd rhan ac i ddweud eich dweud, piniwch eich sylwad i'r map digidol o Wynedd erbyn 30 Ebrill 2021. Ewch i:

https://gwynedd.commonplace.is/#

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru